

---

# Rheoleiddio hysbysebu ar lwyfannau rhannu fideos

Datganiad

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2021

# 1. Trosolwg

## Cefndir a'r hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Erbyn hyn mae gan Ofcom bwerau i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos ("VSP") a sefydlir yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod safonau penodol yn ymwneud â hysbysebu ar y llwyfannau hynny yn cael eu bodloni.

**Rhwng 26 Mai a 28 Gorffennaf 2021, ymgynghorodd Ofcom ar gynigion i reoleiddio hysbysebu ar VSP<sup>1</sup>.** Yn yr ymgynghoriad, nododd Ofcom ein hymagwedd arfaethedig, gan gynnwys cynnig i ddynodi'r ASA yn gyd-reoleiddiwr ac asesiad rhagarweiniol Ofcom o'r ASA yn erbyn y meini prawf perthnasol ar gyfer dynodi cyd-reoleiddiwr. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys arweiniad drafft ar reoli hysbysebu a chymhwysio mesurau priodol sy'n gysylltiedig â hysbysebu sydd i'w cymryd gan ddarparwyr VSP.

**Mae'r fframwaith rheoleiddio'n adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y Ddeddf rhwng hysbysebu sy'n cael ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu gan y VSP a hysbysebu nad yw'n cael ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu gan y VSP.** Pan gaiff hysbysebu ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu gan y darparwyr VSP eu hunain, nhw sy'n uniongyrchol gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion perthnasol. Ar gyfer hysbysebu nad yw'n cael ei farchnata, ei werthu neu ei drefnu ganddynt, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gymryd camau priodol i sicrhau bod y fath hysbysebu'n bodloni'r gofynion perthnasol. Mae rhai gwahaniaethau hefyd yn y gofynion sy'n berthnasol i'r ddau gategori hysbysebu hyn. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad drafft ar gymhwysio'r gwahaniaeth yn y ddeddfwriaeth rhwng hysbysebu sydd o dan reolaeth y darparwr VSP a hysbysebu nad yw o dan ei reolaeth.

**Rydym yn dynodi'r ASA fel cyd-reoleiddiwr ar gyfer hysbysebu a reolir gan VSP.** Bydd yr ASA yn gyfrifol am reoleiddio hysbysebu a reolir gan VSP o ddydd i ddydd, gydag Ofcom yn gweithredu fel y rheoleiddiwr wrth gefn statudol. Mae gan Ofcom drefniadau cyd-reoleiddio sydd eisoes yn bodoli gydag ASA ar gyfer rheoleiddio hysbysebu darlledu ac ar-alw. Am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad a'r datganiad hwn, mae Ofcom yn hyderus ei fod yn briodol i ddynodi ASA fel cyd-reoleiddiwr hysbysebu a reolir gan VSP.

**Bydd Ofcom yn gweinyddu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio hysbysebu nad yw'n cael ei reoli gan VSP, ac mae wedi cyhoeddi arweiniad ar gymhwysio mesurau priodol gysylltiedig â hysbysebu.** Mae Ofcom yn gyfrifol am asesu priodoldeb mesurau a gymerir gan ddarparwyr VSP i ddiogelu defnyddwyr ac wedi cyhoeddi arweiniad i'w cynorthwyo wrth sicrhau cydymffurfiaid. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr feddu ar systemau a phrosesu priodol, ac i fedru esbonio'r rheiny i Ofcom fel rhan o'n hymgysylltiad goruchwylio ehangach. Gan gydnabod bod ASA yn rheoleiddio hysbysebu ar-lein ar sail hunanreoleiddio ar hyn o bryd, byddwn yn gweithio ar y cyd ag ASA i nodi unrhyw wybodaeth berthnasol o'i weithgarwch hunanreoleiddio y gall ei darparu i ni i helpu cyfeirio ein hasesiadau o briodoldeb y mesurau a gymerir gan ddarparwyr VSP i ddiogelu defnyddwyr.

**Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â chasgliadau Ofcom.**

<sup>1</sup> Ofcom, [Cynigion ar gyfer rheoleiddio hysbysebu ar lwyfannau rhannu fideos - Ymgynghoriad](#), Mai 2021.